



COMISIWN ELUSENNAU
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

CANLLAWIAU

Elusennau ac ymglyfreitha: canllaw i ymddiriedolwyr



Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Dwyn neu amddiffyn achos cyfreithiol - y safle cyffredinol i elusennau	6
3. Achos elusennol a rôl y comisiwn	11
4. Gwneud cais am gydsyniad y comisiwn	13

1. Cyflwyniad

1.1 Am beth mae'r canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn yn esbonio beth mae'n rhaid i ymddiriedolwyr elusen ei wybod pan fyddant yn ystyried dwyn neu amddiffyn achos cyfreithiol yn gyffredinol, a phan fydd rhaid i'r Comisiwn Elusennau ('y comisiwn') gymryd rhan.

Mae'n gymwys i bob math o achos cyfreithiol y gallai'r elusen ei ddwyn neu ei amddiffyn ond nid i achosion troseddol neu heriau i benderfyniadau gan y comisiwn.

Mae'n berthnasol i bob elusen os ydynt yn Sefydliadau Corfforedig Elusennol, cwmnïau, ymddiriedolaethau, cyrff aelodaeth neu os oes strwythur arall ganddynt. Mae'n gymwys i elusennau cofrestredig ac anghofrestredig.

1.2 Budd rheoleiddio'r comisiwn

Gall achos cyfreithiol greu risgiau sylweddol i elusen. Mae'r comisiwn wedi darparu'r canllaw hwn i helpu ymddiriedolwyr i roi sylw iddynt a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol. Mae'r comisiwn yn disgwyl i ymddiriedolwyr allu dangos eu bod nhw wedi dilyn egwyddorion y canllaw hwn pan fydd eu helusen yn rhan o achos cyfreithiol.

Mae un o fuddiannau rheoleiddio'r comisiwn mewn achos cyfreithiol gan elusennau yn deillio o'i rôl fel sefydliad sy'n darparu hidlydd amddiffynnol ar gyfer math penodol o achos cyfreithiol (a elwir yn 'achos elusennol') sy'n ymwneud â gweinyddiaeth fewnol elusen. Gall awdurdodi'r math hwn o achos cyfreithiol os na fu modd ei ddatrys mewn unrhyw ffordd arall ac mae er lles yr elusen i'r llys ddyfarnu.

Mae'r rôl hidlydd amddiffynnol hon yn llywio barn gyffredinol y comisiwn mewn perthynas ag achos cyfreithiol nad yw'n bodloni'r diffiniad o achos cyfreithiol. Y rheswm am hyn yw oherwydd mai hyrwyddo'r defnydd effeithiol o adnoddau elusennol yw un o amcanion y comisiwn.

Mae dyletswydd gyffredinol gan ymddiriedolwyr i weithredu er lles gorau eu helusen. Mae dyletswydd arnynt i ddiogelu, ac os oes angen, adennill asedau y mae'r elusen yn berchen arnynt. Rhaid i'r penderfyniad i gychwyn neu amddiffyn achos cyfreithiol neu beidio gael ei wneud er lles gorau'r elusen yn unig a rhaid ei bwysu a mesur yn erbyn risgiau a chanlyniadau posibl unrhyw achos cyfreithiol.

Mae'r comisiwn yn disgwyl i ymddiriedolwyr ystyried achos cyfreithiol dim ond os ydynt wedi ystyried, ac os yw'n briodol, wedi diystyru ffyrdd eraill o ddatrys y mater cynhennus.

Gall achos cyfreithiol greu risg sylweddol i fuddiolwyr, asedau ac enw da'r elusen. Mae dyletswydd gan gorff ymddiriedolwyr i reoli risg mewn modd cyfrifol trwy adnabod ac asesu'r risgiau y gallai eu helusen eu hwynebu a phenderfynu sut i ddelio â nhw. Rôl y comisiwn, os yw pryderon yn cael eu codi gyda ni, yw sicrhau bod yr ymddiriedolwyr wedi gwneud eu penderfyniadau er lles gorau eu helusen. Gall y comisiwn ddefnyddio ei bwerau i ddarparu cyngor, canllawiau neu gynllun gweithredu, ac os oes pryderon difrifol o gamdriniaeth mewn elusen, gall y comisiwn gychwyn ymchwiliad statudol o dan adran 46 o'r Ddeddf Elusennau.

1.3 Canllawiau cysylltiedig eraill

Mae'r comisiwn wedi cyhoeddi canllawiau eraill sy'n rhoi gwybodaeth bellach am rai o'r materion a godir yn y canllaw hwn:

- **Yr ymddiriedolwr hanfodol: beth mae angen i chi ei wybod, beth mae angen i chi ei wneud (CC3)**
- **Eich penderfyniad chi: ymddiriedolwyr elusen a gwneud penderfyniadau**
- **Sail gyfreithiol (i'r canllaw hwn)**
- **Gwrthdaro buddiannau: canllaw i ymddiriedolwyr elusen (CC29)**
- **Newid dogfen lywodraethol eich elusen (CC36)**
- **Adfer ac adennill cronfeydd elusennol: polisi'r Comisiwn Elusennau**

1.4 Sut i ddefnyddio'r canllaw hwn

Mae Adran 2 y canllaw hwn yn ceisio rhoi trosolwg i ymddiriedolwyr a'u cynghorwyr cyfreithiol o'r canlynol:

- yr amgylchiadau pan allai elusen ddwyn neu amddiffyn achos cyfreithiol
- pa ddewisiadau eraill sydd ar gael
- proses gwneud penderfyniadau'r ymddiriedolwyr
- rheoli costau achos cyfreithiol
- pryd mae angen i'r comisiwn weithredu

Mae Adran 3 yn ystyried beth yw achos elusennol a rôl y comisiwn. Mae'n esbonio:

- y diffiniad o achos elusennol
- pwy arall allai ddwyn achos cyfreithiol ar wahân i'r ymddiriedolwyr elusen
- pa bwerau sydd gan y comisiwn a phryd y bydd yn eu defnyddio
- beth i'w hystyried cyn gwneud cais i'r comisiwn

Mae Adran 4 yn ystyried y canlynol yn fwy manwl:

- gwneud cais i'r comisiwn am orchymyn i awdurdodi achos elusennol
- beth sy'n digwydd pan fydd y comisiwn yn gwneud penderfyniad

Mae'r **sail gyfreithiol** yn esbonio'r gyfraith a'r cysail cyfreithiol sy'n ategu'r canllaw hwn ac yn rhoi mwy o gefndir i'r ymddiriedolwyr a'u cynghorwyr proffesiynol.

Mae'r **rhestr wirio** yn cael ei darparu a allai fod yn ddefnyddiol i'r ymddiriedolwyr wrth iddynt ystyried dwyn neu amddiffyn achos cyfreithiol.

1.5 Termau technegol a ddefnyddir yn y canllaw hwn

Rhaid a dylai:

Yn y canllaw hwn:

- mae 'rhaid' yn golygu rhywbeth sy'n ofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol neu ddyletswydd y mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr gydymffurfio â hi
- mae 'dylai' yn golygu rhywbeth sy'n arfer da y mae'r comisiwn yn disgwyl i ymddiriedolwyr ei dilyn a'i chymhwyso i'w helusen nhw

Bydd dilyn yr arfer da a nodir yn y canllaw hwn yn eich helpu i redeg eich elusen yn effeithiol, osgoi anawsterau a chydymffurfio â'ch dyletswyddau cyfreithiol. Mae elusennau'n amrywio o ran eu maint a'u gweithgareddau. Ystyriwch a phenderfynwch ar y ffordd orau o gymhwyso'r arfer da yma i amgylchiadau'ch elusen chi. Mae'r comisiwn yn disgwyl i chi allu esbonio a chyfiawnhau eich ymagwedd, yn enwedig os ydych chi'n penderfynu peidio â dilyn yr arfer da yn y canllaw hwn.

Mewn rhai achosion ni fyddwch yn gallu cydymffurfio â'ch dyletswyddau cyfreithiol os nad ydych yn dilyn yr arfer da. Er enghraifft:

Eich dyletswydd gyfreithiol	Mae'n hollbwysig eich bod chi'n
Gweithredu er lles gorau eich elusen	Delio â gwrthdaro buddiannau
Rheoli adnoddau eich elusen mewn modd cyfrifol	Gweithredu rheolaethau ariannol priodol Rheoli risgiau
Gweithredu gyda gofal a sgil rhesymol	Ceisio cyngor priodol pan fydd ei angen arnoch, er enghraifft, pan fyddwch yn prynu neu'n gwerthu tir, neu'n buddsoddi (weithiau mae hyn yn ofyniad cyfreithiol)

Gall ymddiriedolwyr sy'n torri eu dyletswyddau cyfreithiol fod yn atebol am y canlyniadau sy'n deillio o gamweithredu o'r fath ac am unrhyw golled a ddaw i'r elusen o ganlyniad. Pan fydd y comisiwn yn ystyried achosion posibl o dor-ymddiriedaeth neu dor-ddyletswydd neu gamymddwyn neu gamreoli arall, gall ystyried tystiolaeth bod yr ymddiriedolwyr wedi rhoi'r elusen, ei hasedau neu ei buddiolwyr mewn perygl o niwed neu risg gormodol drwy beidio â dilyn arfer da.

Ystyr 'achos cyfreithiol' yw'r broses o gael rhywbeth wedi'i benderfynu gan lys. Yn y canllaw hwn nid yw'n cwmpasu erlyniadau troseddol neu heriau i benderfyniadau'r comisiwn.

Ystyr 'buddiolwr neu fuddiolwyr' yw unigolyn neu grŵp o bobl sy'n gymwys i gael budd o waith elusen. Fel arfer mae grŵp buddiolwyr elusen wedi'i ddiffinio yn ei dogfen lywodraethol. Bydd rhai elusennau yn galw eu buddiolwyr yn gleientiaid neu'n ddefnyddwyr gwasanaeth.

Ystyr 'Deddf Elusennau' yw Deddf Elusennau 2011. Weithiau mae'r canllaw hwn yn cyfeirio at bwerau penodol o dan y Ddeddf hon.

Diffinnir 'achos elusennol' gan adran 115(8) o'r Ddeddf Elusennau ac mae'n cyfeirio at fath penodol o achos cyfreithiol. Mae achos elusennol yn gofyn am awdurdodiad penodol y comisiwn trwy orchymyn o dan adran 115(2) o'r Ddeddf, oni bai ei fod yn cael ei ddwyn gan y Twrnai Gwladol, y comisiwn neu fel y nodir yn adran 115(4).

Ystyr y 'llys' yw'r uchel lys neu unrhyw lys arall yng Nghymru a Lloegr sydd ag awdurdodaeth gyfredol neu unrhyw farnwr neu swyddog sy'n arfer yr awdurdodaeth honno. At ddibenion y canllaw hwn nid yw hyn yn cynnwys unrhyw driwlysoedd, llys y goron neu'r llys ynadon.

Y 'ddogfen lywodraethol' yw'r ddogfen gyfreithiol sy'n amlinellu'r rheolau sy'n llywodraethu elusen. Mae'r rhain yn cynnwys amcanion yr elusen ac, fel arfer, sut y mae'n rhaid cael ei gweinyddu. Fel arfer mae'n weithred ymddiriedolaeth, yn gyfansoddiad, yn gyfansoddiad SCE neu'n erthyglau cymdeithasu. Mae gan rai elusennau fath gwahanol o ddogfen fel trawsgludiad, ewyllys, siarter frenhinol neu gynllun y comisiwn.

Mae 'er lles gorau'r elusen' yn golygu beth fydd, ym marn resymol yr ymddiriedolwyr, yn cynnig modd i'r elusen gyflawni ei dibenion orau er budd y cyhoedd.

Mae 'parti (neu bartion)' i achos yn y canllaw hwn yn golygu'r unigolion hynny sy'n cychwyn achos cyfreithiol (hawlwr), yr unigolion hynny y mae'r achos cyfreithiol yn cael ei ddwyn yn eu herbyn (amddiffynwyr) ac unigolion eraill sydd â budd yn yr achos cyfreithiol sydd wedi cael ei gydnabod gan y llys (cyfranogwyr).

Mae 'unigolyn neu gynghorydd cymwysedig addas' yn rhywun y gallai fod yn rhesymol i'r ymddiriedolwyr ddisgwyl iddo/iddi fod yn gymwys i'w cynghori ar fater arbennig. Mae hyn yn cynnwys cynghorwyr proffesiynol (megis cyfreithwyr neu fargyfreithwyr). Gallai hefyd gynnwys (er enghraifft) aelod o staff yr elusen, ymddiriedolwr â chymwysterau proffesiynol neu gynghorydd o sefydliad arall.

'Ymddiriedolwr' yw ymddiriedolwr elusen. Ymddiriedolwyr elusen yw'r bobl sy'n gyfrifol am lywodraethu elusen a chyfeirio sut y caiff ei rheoli a'i rhedeg. Gall dogfen lywodraethol elusen eu galw nhw'n ymddiriedolwyr, y bwrdd, y pwyllgor rheoli, llywodraethwyr, cyfarwyddwyr, neu enw arall. Mae'r Ddeddf Elusennau yn diffinio'r bobl sydd â'r rheolaeth derfynol am yr elusen fel yr ymddiriedolwyr elusen, beth bynnag y cânt eu galw yn nogfen lywodraethol yr elusen.

2. Dwyn neu amddiffyn achos cyfreithiol - y safle cyffredinol i elusennau

2.1 Yr achosion cyfreithiol sy'n cael sylw yn y canllaw hwn

Mae ystod eang o achosion cyfreithiol y gallai elusen ymwneud â nhw, gan gynnwys:

- hawliadau sy'n cael eu dwyn gan yr elusen yn erbyn trydydd parti, neu i'r gwrthwyneb. Er enghraifft:
 - torri contract
 - materion cyflogaeth
 - anghydfodau ynghylch ffiniau
 - adennill meddiant cyfreithiol o eiddo
 - herio hawl elusen i eiddo o dan ewyllys
 - achos ar gyfer anaf neu golled bersonol yn deillio o weithredoedd yr elusen neu sy'n achosi niwed i'r elusen
 - achosion prawf i hyrwyddo neu hwyluso gwaith yr elusen
- hawliadau sy'n ymwneud â gweinyddiaeth fewnol yr elusen neu ei materion domestig. Er enghraifft:
 - a yw cyfarfod cyffredinol blynyddol elusen wedi cael ei gynnal yn briodol
 - a yw ymddiriedolwyr elusen wedi cael eu penodi'n briodol
 - diswyddo ymddiriedolwr o'i swydd
 - achos ar gyfer torri dyletswydd ymddiriedolwyr
 - herio penderfyniad ymddiriedolwr ynghylch sut i redeg yr elusen
 - anghydfodau mewnol ynghylch rheolaeth neu gamddefnyddio eiddo neu adnoddau elusen

2.2 Oes pŵer gan bob elusen i ddwyn neu amddiffyn achos cyfreithiol?

Oes, er mae'n rhaid i ymddiriedolwyr gofio bod rhaid i ddwyn neu amddiffyn achos cyfreithiol fod er lles gorau eu helusen. Mae'n rhaid iddynt allu dangos bod eu penderfyniadau wedi cael eu gwneud yn unol â hynny. Fodd bynnag, mewn rhai achosion mae'n rhaid cael cydsyniad y comisiwn (gweler adrannau 3 a 4).

Mae strwythur cyfreithiol yr elusen yn golygu bod gwahaniaeth yn y ffordd y gall achos cyfreithiol gael ei ddwyn neu ei amddiffyn:

- Elusennau corfforedig

Mae elusennau corfforedig megis cwmnïau elusennol, corfforaethau neu Sefydliadau Corfforedig Elusennol yn dwyn neu'n amddiffyn achos cyfreithiol yn enw'r elusen fel endid cyfreithiol ynddo'i hun. Os yw achos yn cael ei ddwyn gan neu yn erbyn elusen gorfforedig, bydd yr elusen gorfforedig yn cael ei henwi fel parti i'r achos yn ei henw corfforaethol. Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd, os yw'r elusen wedi'i hymgorffori, yr elusen ei hun, yn hytrach na'r aelodau neu'r ymddiriedolwyr, sy'n gyfrifol am ddyledion yr elusen neu am unrhyw atebolrwydd arall a allai godi.

Fodd bynnag, os yw unrhyw dor-ddyletswydd wedi digwydd neu os nad yw'r penderfyniad i ddwyn neu amddiffyn yr achos cyfreithiol wedi cael ei wneud mewn modd rhesymol, gall yr ymddiriedolwyr fod yn atebol yn bersonol am unrhyw gostau sy'n codi o'r achos.

- Elusennau anghorfforedig

Fel arfer bydd elusennau anghorfforedig megis cymdeithasau ac ymddiriedolaeth yn dwyn neu'n amddiffyn achos cyfreithiol yn enwau eu hymddiriedolwyr elusen. Os nad oes digon o arian gan elusen i dalu am unrhyw hawliad, gall yr ymddiriedolwyr fod yn atebol yn bersonol waeth a fu unrhyw ddiffyg neu dor-ddyletswydd ar eu rhan nhw neu beidio.

Mae'n rhaid i rai mathau o achosion cyfreithiol, beth bynnag fo strwythur cyfreithiol yr elusen, gael cydsyniad y comisiwn. Mae'r rhain yn gategori penodol o achos cyfreithiol, yn ymwneud â chyfansoddiad neu weinyddu elusen ac fe'u gelwir yn achosion elusennol.

Cewch ragor o wybodaeth am achosion elusennol a sut i wneud cais am gydsyniad y comisiwn yn adrannau 3 a 4 o'r canllaw hwn.

2.3 Yr egwyddorion cyffredinol y dylai ymddiriedolwyr eu dilyn

Dylai penderfyniad i ddwyn achos cyfreithiol gael ei wneud yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yn y canllaw **Eich penderfyniad chi: ymddiriedolwyr elusen a gwneud penderfyniadau.**

Mae rhai egwyddorion pwysig y dylai ymddiriedolwyr eu dilyn os ydynt yn ystyried dwyn neu amddiffyn achos cyfreithiol. Yr egwyddorion yw:

- mae dyletswydd gan ymddiriedolwyr i amddiffyn neu ddiogelu asedau eu helusen ac, os oes angen, adennill asedau y mae'r elusen yn berchen arnynt; gallai dwyn neu amddiffyn achos cyfreithiol fod yn un ffordd o gyflawni'r ddyletswydd hon
- rhaid gwario arian elusen ar gyflawni ei hamcanion ac mae dyletswydd gan ymddiriedolwyr i weithredu er lles gorau eu helusen - rhaid i benderfyniad i ddwyn neu amddiffyn achos cyfreithiol gael ei wneud er lles gorau'r elusen yn unig, ar ôl ystyried a oes modd gweithredu mewn ffordd arall
- wrth wneud eu penderfyniadau, dylai'r ymddiriedolwyr:
 - geisio ac ystyried cyngor cyfreithiol
 - ystyried ac asesu'r rhagolygon economaidd o lwyddo neu fethu a'r effaith ar yr elusen
 - ystyried a yw'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd yn gymesur yn yr amgylchiadau
 - penderfynu a oes angen neu a yw'n briodol i ofyn am gydsyniad neu gyngor y comisiwn
- beth bynnag fydd canlyniad yr achos cyfreithiol, yr anfanteision arferol yw y bydd yn golygu amser ac arian i'r elusen a gall gael effaith negyddol ar ei henw da - hyd yn oed os yw'r elusen yn ennill mae'n bosib na fydd yn adennill ei holl gostau cyfreithiol
- oni bai bod cyfyngiadau amser ar gyfer dwyn neu ymateb i achos yn atal hynny, bydd y comisiwn yn disgwyl i ymddiriedolwyr ystyried ac, os yw'n briodol, ddiystyru'r holl ddewisiadau rhesymol eraill sydd ar gael iddynt i ddatrys y mater, megis datrys anghydfod mewn ffordd arall neu gytuno ar gyfaddawd cyfreithiol
- oni bai bod yr arbenigedd mewnol angenrheidiol gan elusen, er mwyn gwneud penderfyniad priodol fel arfer bydd yn briodol i geisio ac ystyried cyngor cyfreithiol proffesiynol yn ogystal â'r cyngor arbenigol arall y gallai fod ei angen i lywio ei phenderfyniad
- mae tryloywder ynghylch y rhesymau dros ddwyn achos cyfreithiol yn bwysig iawn o ran esbonio pam roedd yr ymddiriedolwyr wedi penderfynu gweithredu fel hyn - mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr allu cyfiawnhau eu penderfyniad oherwydd gall gweithredoedd yr elusen gael effaith ar enw da a chefnogwyr yr elusen

- mewn rhai amgylchiadau, gall yr ymddiriedolwyr fod yn atebol am dalu unrhyw gostau cyfreithiol yn bersonol, er enghraifft:
 - os yw'r llys o'r farn bod y costau heb fod yn briodol nac yn rhesymol
 - nid yw'r ymddiriedolwyr yn gallu dangos eu bod nhw wedi ystyried yr holl egwyddorion perthnasol wrth iddynt wneud eu penderfyniad
 - yn achos elusennau anghorfforedig, nid oes digon o arian gan yr elusen i dalu'r costau

2.4 Dewisiadau eraill i ddwyn neu amddiffyn achos cyfreithiol

Os yw ymddiriedolwyr yn wynebu dwyn neu amddiffyn achos cyfreithiol, bydd y comisiwn a'r llys yn disgwyl iddynt fod wedi ystyried yn fanwl ac, os yw'n briodol, ddiystyru'r holl ffyrdd rhesymol eraill o ddatrys y mater ymlaen llaw.

Mae'n bosib y bydd ymddiriedolwyr yn gallu osgoi cymryd rhan mewn achos cyfreithiol trwy ddefnyddio datrys anghydfod. Mathau cyffredin o ddatrys anghydfod yw:

- negodi - lle mae'r partiön yn ceisio datrys yr anghydfod eu hunain, gan ddefnyddio cynghorwyr weithiau
- cyfryngu - os yw trydydd parti annibynnol yn gweithredu fel hwyluswr rhwng y partiön; mae nifer o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyfryngu.

Mae **anghytundebau ac anghydfodau mewn elusennau** yn rhoi rhagor o wybodaeth.

Gall cyfryngu fod yn effeithiol iawn oherwydd gall helpu i ystyried materion cyfreithiol yn ogystal â'r materion ehangach i helpu i gael hyd i ateb cynhwysfawr a pharhaol.

Mae'r system llys ac ymgyfreitha wedi'i strwythuro i annog partiön i wneud ymdrech difrifol i ddatrys yr anghydfod ar y cam cynharaf posibl. Gall llys wrthod ystyried mater hyd nes bod cyfryngu neu fath arall o ddatrys anghydfod wedi cael ei ystyried a gall orchymyn bod y partiön yn rhoi cynnig ar ddull arall o ddatrys anghydfod yn gyntaf.

2.5 Llunio cyfaddawd cyfreithiol

Mae cyfaddawd yn gytundeb cyfreithiol rwymol rhwng dau barti neu ragor i ddatrys anghydfod heb fynd trwy'r broses ymgyfreitha lawn a'r broses llys. Gallai enghraifft o gyfaddawd o'r fath godi pan fydd amheuaeth a yw cymynrodd i elusen o dan ewyllys yn ddilys neu beidio, ac mae'r elusen a'r buddiolwyr eraill o dan yr ewyllys yn dod i gytundeb ynghylch rhannu eiddo'r ymadawedig.

Mae dyletswydd yr ymddiriedolwyr i warchod a diogelu asedau'r elusen yr un mor gymwys i gyfaddawdu hawliad ag y mae wrth ddwyn neu amddiffyn achos cyfreithiol. Dylai ymddiriedolwyr ofalu eu bod nhw'n sicrhau eu bod yn cael setliad ffafriol mor rhesymol â phosibl er budd yr elusen, gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol. Gall ystyriaethau gynnwys sut y gallai llunio cyfaddawd effeithio ar enw da'r elusen ac a allai gweithredu fel hyn effeithio ar sefyllfa'r elusen mewn anghydfodau eraill.

Er mwyn cyflawni eu dyletswydd gofal yn briodol dylai ymddiriedolwyr wneud penderfyniad gwybodus gan geisio cyngor arbenigol gan unigolyn sydd â chymwysterau addas. Mae'r canllawiau ar wneud penderfyniadau. **Eich penderfyniad chi: ymddiriedolwyr elusen a gwneud penderfyniadau** yn amlinellu sut y dylai ymddiriedolwyr wneud eu penderfyniad.

Wrth gyrraedd unrhyw setliad o hawliad wedi'i negodi, ei gyfryngu neu ei gyfaddawdu, dylai'r ymddiriedolwyr fodloni eu hunain bod y pŵer ganddynt i weithredu telerau'r setliad. Mae'r canllaw **Pŵer ymddiriedolwyr i gyfaddawdu** yn rhoi rhagor o wybodaeth. Os yw'r ymddiriedolwyr yn meddwl y gallent gael eu herio ynghylch cael caniatâd i ddefnyddio dull arall o ddatrys anghydfod neu gytuno â chyfaddawd sy'n gyfreithiol rwymol, gallent roi'r pŵer i'w hunain.

Mae **Newid dogfen lywodraethol eich elusen (CC36)** yn rhoi gwybodaeth ynghylch sut i wneud hyn.

Os oes gwrthdaro buddiannau neu wrthdaro buddiannau posibl mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr:

- nodi unrhyw wrthdaro buddiannau
- ei atal rhag effeithio ar y penderfyniad
- cofnodi'r gwrthdaro buddiannau a sut mae'r ymddiriedolwyr wedi ei atal rhag effeithio ar y penderfyniad

Mae'r canllaw Gwrthdaro buddiannau: canllaw i ymddiriedolwyr elusen yn esbonio beth mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr ei wneud yn y sefyllfa hon.

2.6 Beth all elusennau ei wneud i reoli'r risg personol o gostau

Mae dwyn neu amddiffyn achos cyfreithiol yn golygu bod risg o atebolrwydd personol i ymddiriedolwyr elusen. Dylai ymddiriedolwyr ystyried a sefydlu cyn dwyn achos cyfreithiol neu ar gychwyn amddiffyn achos cyfreithiol, eu hatebolrwydd posibl am gostau'r achos cyfreithiol a sut y gellid lleddfu'r atebolrwydd hwn.

I ymddiriedolwr, beth bynnag yw ffurf gyfreithiol eu helusen, ceir risg o atebolrwydd personol am y costau cyfreithiol os nad oedd y penderfyniad i ddwyn neu amddiffyn achos cyfreithiol wedi cael ei wneud mewn modd rhesymol. Mae'r ddau barti sy'n ymwneud ag achos cyfreithiol yn debygol o gael costau sylweddol os ydynt yn ennill neu'n colli, er mae'r costau yn debygol o fod yn uwch ar gyfer y parti sy'n colli. Hyd yn oed os yw elusen yn llwyddiannus wrth ddwyn unrhyw achos cyfreithiol mae'n bosib na fydd yn cael ei holl gostau yn ôl.

Mae camau y gall ymddiriedolwyr eu cymryd i leihau'r risg o atebolrwydd personol i dalu costau. Wrth ystyried p'un ai i ddwyn neu amddiffyn achos cyfreithiol, dylai'r ymddiriedolwyr fod yn ymwybodol o'r risgiau posibl a chynllunio sut i ddelio â'r rhain os ydynt yn codi. Dylent:

- ystyried yr egwyddorion cyffredinol yn y **canllaw ar wneud penderfyniadau** a gweithio trwy'r **rhestr wirio** sy'n ategu'r canllaw hwn, i helpu i sicrhau bod eu penderfyniad er lles yr elusen
- ceisio cyngor proffesiynol i helpu i lywio eu proses gwneud penderfyniad
- gwneud cais i'r comisiwn am orchymyn o dan adran 115 o'r Ddeddf Elusennau yn awdurdodi'r achos cyfreithiol arbennig os yw'r achos cyfreithiol yn cael ei ystyried yn achos elusennol (gweler adran 3)
- ystyried cynhyrchion yswiriant a allai yswirio'r elusen a'i hymddiriedolwyr yn erbyn y costau sy'n codi wrth ddwyn neu amddiffyn achos cyfreithiol; gall ymddiriedolwyr geisio cyngor ar yr hyn sydd ar gael gan gynghorydd yswiriant neu frocer
- gofyn i'r comisiwn am orchymyn o dan adran 105 o'r Ddeddf i awdurdodi'r defnydd o gronfeydd yr elusen ar gyfer ymgyfreitha

- gofyn i'r comisiwn roi cyngor o dan adran 110 o'r Ddeddf Elusennau ynghylch a fyddent yn gweithredu yn unol â'u dyletswyddau wrth ddwyn neu amddiffyn achos cyfreithiol; mae cyngor o'r fath ar gael mewn rhai amgylchiadau yn unig; bydd y comisiwn yn rhoi cyngor o dan adran 110 dim ond:
 - os yw'r cais ysgrifenedig am gyngor (gan gynnwys cais e-bost) gan unrhyw ymddiriedolwr elusen neu ymddiriedolwr ar gyfer elusen, neu asiant sy'n gweithredu ar ran yr ymddiriedolwyr
 - os yw'r cyngor a geisir wedi'i gynnwys yn briodol o fewn cwmpas cynghori ymddiriedolwyr ar faterion sy'n ymwneud â pherfformiad eu dyletswyddau yng nghyd-destun gweinyddiaeth briodol o'r elusen
 - nid yw'r cyngor cyffredinol ar gael trwy wefan y comisiwn (yn arbennig y canllaw Eich penderfyniad chi: ymddiriedolwyr elusen a gwneud penderfyniadau) yn ddigonol yn yr amgylchiadau hyn
 - mae'r amgylchiadau yn ddifrifol ac felly yn absenoldeb barn neu gyngor gan y comisiwn, byddai'r ymddiriedolwyr yn ystyried (oherwydd y costau sy'n gysylltiedig â gwneud cais i'r llys, ni all y comisiwn disgwyl i ymddiriedolwyr ddatgan yn bendant y byddent yn gwneud cais o'r fath) gwneud cais i'r llys, er mwyn:
 - penderfynu a ydynt yn gweithredu o fewn eu hymddiriedolaethau neu beidio wrth wneud y penderfyniad
 - cael sicrwydd eu bod nhw wedi gweithredu'n gyfreithlon ac mae'r costau wedi codi'n briodol
 - ystyried gwneud cais am orchymyn y llys, a elwir yn orchymyn Beddoe ac yn fath o achos elusennol a bydd rhaid iddo gael ei awdurdodi gan y comisiwn - dim ond mewn amgylchiadau eithriadol, pan na fydd y comisiwn yn gallu defnyddio ei bwerau ei hun fel y nodir yn y pwyntiau bwled uchod, fydd y comisiwn yn caniatáu cais am orchymyn Beddoe

3. Achos elusennol a rôl y comisiwn

3.1 Beth yw achos elusennol?

Diffinnir achos elusennol gan adran 115 o'r Ddeddf ac mae'n cyfeirio at fath penodol o achos cyfreithiol. Yn gyffredinol mae'n yn ymwneud â gweinyddiaeth fewnol neu faterion domestig yr elusen ac mae enghreifftiau i'w gweld yn adran 2.1.

Os yw elusen yn ymwneud ag achos cyfreithiol sydd wedi'i gynnwys o fewn y diffiniad o achos elusennol, mae'n rhaid iddi wneud cais am awdurdod y comisiwn cyn gweithredu. Fodd bynnag, weithiau bydd trydydd parti (nid yr elusen) yn gwneud cais am gydsyniad y comisiwn, er enghraifft cyn-ymddiriedolwr.

3.2 Beth nad yw'n yw achos elusennol?

Nid yw achos elusennol yn ymwneud â materion rhwng elusen a thrydydd parti ynghylch materion fel:

- torri contract
- gweithredoedd dyled
- anghydfodau cyflogaeth
- ceisiadau am ôl-ddyledion rhent
- difenwi
- hawliau eiddo

Mae'n werth nodi, fodd bynnag, gallai'r hyn sy'n dechrau fel math gwahanol o achos cyfreithiol arwain at achos elusennol weithiau. Er enghraifft, gall deiliad swydd mewn elusen feddiannu eiddo sy'n gysylltiedig â'r swydd honno. Os oes hawliad i feddiannu'r eiddo hwnnw ac mae'r ffordd y cafodd deiliad y swydd ei ddiswyddo o'r swydd yn cael ei phledio fel rhan o'r amddiffyniad, gallai hyn fod yn achos elusennol.

3.3 Pwy all ddwyn achos elusennol?

Mae'r Ddeddf Elusennau yn nodi pwy all ddwyn achos elusennol - sef:

- yr elusen
- unrhyw ymddiriedolwyr yr elusen
- unrhyw unigolyn sydd â budd yn yr elusen (esbonnir hyn ymhellach yn y **sail gyfreithiol**)
- os yw'n elusen leol, unrhyw ddau neu ragor o drigolion ardal yr elusen

Mae rheolau gweithdrefnol arbennig ar gyfer achos elusennol ac mae **rheolau trefniadaeth y llys sifil** ar gael ar-lein (fel rhan 64 yn arbennig).

3.4 Y meini prawf ar gyfer awdurdodi ceisiadau am achos elusennol

Mae rôl reoleiddio gan y comisiwn wrth benderfynu p'un ai i awdurdodi dwyn achos o'r fath neu beidio. Mae'n rhaid gwario cronfeydd elusennol ar hyrwyddo dibenion elusennol ac nid, er enghraifft, ar:

- gostau cyfreithiol yn amddiffyn hawliadau sydd heb unrhyw deilyngdod neu obaith rhesymol o lwyddo
- achosion sy'n cael eu seilio ar, dyweder, gymhellion personol yn hytrach na lles gorau'r elusen
- achosion y gellir delio â nhw trwy'r comisiwn yn defnyddio ei bwerau (er enghraifft, trwy ddarparu cyngor ffurfiol neu wneud gorchymyn), neu eu datrys trwy ddulliau eraill fel cyfryngu

Mae hefyd yn bwysig i'r comisiwn fodloni ei hun ei fod er lles yr elusen i'r mater gael ei ddyfarnu gan y llys a'i ddatrys yno. Mae hyn yn golygu y bydd y comisiwn yn gyffredinol yn awdurdodi achos elusennol dim ond os yw'r materion yn ddadleuol, ac yn anodd eu trin, ac ni ellir eu datrys mewn unrhyw ffordd arall gan y comisiwn ei hun neu unrhyw un arall. Mae hefyd yn bwysig ei bod er lles yr elusen i'r mater gael ei ddyfarnu gan y llys a'i ddatrys yno.

Achosion brys

Mae amserlenni caeth ar gyfer dwyn achosion o'r fath a'u trywydd dilynol trwy'r system llys, a phe bai achos cyfreithiol eisoes wedi dechrau cyn sylweddol bod angen cydsyniad y comisiwn, gall fod yn anodd gweithredu i amserlenni arbennig. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n bwysig bod achos cynhwysfawr, gyda thystiolaeth ategol, yn cael ei gwneud i'r comisiwn cyn gynted â phosibl i'w galluogi i ystyried cais i awdurdodi.

Felly, er enghraifft, os oes pwnt cyfyngu neu ddyddiad cau, ni ddylent aros am gydsyniad y comisiwn cyn dwyn achos. Dylent gymryd camau priodol i ddelio â'r pwynt arbennig hwn (ond dim byd pellach) oherwydd nid oes pŵer gan y comisiwn i newid y dyddiadau hyn os yw'n eu colli. Yn yr achosion hyn, fel arfer bydd y llys yn oedi'r achos hyd nes bod y comisiwn wedi benderfynu ei awdurdodi neu beidio.

Os yw'r comisiwn yn gwrthod gwneud gorchymyn, mae'n rhaid i'r ymgeisydd wneud cais i'r llys i awdurdodi'r achos cyn y gall y mater gael ei ystyried.

4. Gwneud cais am gydsyniad y comisiwn

4.1 Ydy elusen yn rhan o'r achos?

Gall y comisiwn awdurdodi achos elusennol dim ond os yw elusen yn rhan o'r achos.

Fodd bynnag, os oes ansicrwydd ynghylch a yw'r sefydliad yn elusen, efallai y gall y comisiwn awdurdodi achos elusennol cyn belled ag y bo'r sefydliad yn elusennol.

4.2 Beth yw cais am gydsyniad i gynnal achos elusennol ym marn y comisiwn

Pan fydd cais am gydsyniad i gynnal achos elusennol yn cael ei wneud, prif ystyriaeth y comisiwn fydd a yw er lles yr elusen i ofyn i'r llys ddyfarnu ar y mater. Bydd y comisiwn hefyd yn ystyried:

- a yw'r achos cyfreithiol yn ffurfio achos elusennol
- a yw'r achos yn cael ei ddwyn gan unigolion sy'n gymwys i ddwyn achos elusennol, er enghraifft oherwydd bod budd digonol ganddynt
- a oes modd delio â'r mater mewn ffordd wahanol trwy ddefnyddio ei bwerau eraill
- a yw'r achos yn cael ei ddwyn yn briodol gyda'r partion cywir ac mae rhyddhad addas yn cael ei geisio yn y ffurf gywir

4.3 Sut i wneud cais am gydsyniad i gynnal achos elusennol

Dylai unrhyw gais a thystiolaeth ategol ddangos yn glir pam y mae'r achos arfaethedig er lles yr elusen a pha mor debygol yw o lwyddo. Os nad yw'r cais yn gyflawn ni fydd y comisiwn yn gallu ei ystyried. Fel rheol bydd y cais wedi'i ategu orau trwy ddarparu'r ddogfennaeth ganlynol:

- cais ffurfiol am Orchymyn adran 115 (mae pwerau'r comisiwn yn gymwys dim ond pan fydd cais yn cael ei wneud)
- copi o'r ffurflen gais/amddiffyniad a datganiadau o wirionedd
- y farn gyfreithiol ar deilyngdod a'r gobaidh o lwyddo; nid oes rhaid i hyn gael ei roi gan y Cwnsler o reidrwydd yn dibynnu ar gymhlethdod a risgiau'r mater
- amcangyfrif o'r costau
- gwerth yr asedau dan sylw - os yw'n briodol
- yr wybodaeth ddiweddaraf am gyllid yr elusen
- gwerthusiad o'r buddiannau a'r risgiau a fydd/a allai ddeillio o achos cyfreithiol llwyddiannus
- asesiad o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r achos (gan gynnwys enw da'r elusen)
- y rhagolygon o gyfryngu/gyfaddawdu - dylid rhoi'r manylion llawn

4.4 Y camau nesaf

Gan gymryd bod yr holl wybodaeth berthnasol wedi cael ei chyflenwi, bydd y comisiwn yn penderfynu a yw'n gallu awdurdodi unrhyw achos neu'r holl achosion elusennol trwy orchymyn o dan adran 115 o'r Ddeddf Elusennau. Bydd unrhyw bapurau a roddir i'r comisiwn yn cael eu trin fel rhai cyfrinachol oherwydd mae'n rhaid i'r comisiwn weld copïau o gyngor cyfreithiol a bydd yn trin unrhyw bapurau a roddir fel pe baent yn gyfrinachol.

Mae hyn yn golygu bod y comisiwn yn ymdrin â'r wybodaeth hon yn briodol a gyda gofal. Fel awdurdod cyhoeddus, mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn gymwys i'r comisiwn. Fodd bynnag, gall amrywiaeth o eithriadau fod yn gymwys i'r math hwn o wybodaeth, er enghraifft diogelu data, gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif a gwybodaeth sydd â'r ansawdd cyfreithiol angenrheidiol o gyfrinachedd. Os yw'r wybodaeth a ddarperir yn arbennig o sensitif neu gyfrinachol ac nid yw hyn yn debygol o fod yn amlwg i ni, bydd rhaid i chi ddweud wrth y comisiwn ac esbonio pam.

Os yw'r comisiwn yn penderfynu y gellir gwneud gorchymyn bydd yn:

- hysbysu'r parti (gweler y diffiniadau yn adran 1.5) sy'n dwyn yr achos
- paratoi drafft o'r gorchymyn i'w gytuno â'r parti sy'n dwyn yr achos, neu fwrw ymlaen a gwneud y gorchymyn (yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos)
- anfon copi o'r gorchymyn i'r parti sy'n dwyn yr achos
- anfon copi o'r gorchymyn i'r Twrnai Gwladol, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Elusennau

Os yw'r comisiwn yn penderfynu nad oes modd gwneud gorchymyn, bydd yn hysbysu'r ceisydd, gan roi'r rhesymau dros ei benderfyniad.

Os yw'r comisiwn yn penderfynu nad yw'n gallu gwneud gorchymyn, gall y parti sy'n dwyn yr achos wneud cais i farnwr yn Is-adran Siawnsri'r Uchel Lys am ganiatâd i gychwyn achos o dan adran 115(5) o'r Ddeddf. Os yw cais yn cael ei wneud, dylai'r parti sy'n dwyn yr achos ddarparu copi o llythyr gwrthod y comisiwn i'r llys gyda'r cais.

Mae'n rhaid gwneud y cais o fewn 21 diwrnod o'r llythyr gwrthod ac mae'n rhaid i'r comisiwn fod yn amddiffynnydd i hawliad o'r fath ond nid oes rhaid i'r cais gael ei gyflwyno i'r comisiwn (gweler **rheolau trefniadaeth y llys sifil**), sydd ar gael ar-lein, rhan 64.6 yn arbennig).